



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

18 Hydref 2021 Rhifyn 40

CYNNYDD WYTHNOSOL 11 Hydref – 17 Hydref 2021

Ers lansio brechlyn COVID-19, mae'r Tîm Brechu wedi bod yn gweithio'n ddiflino i gyflawni'r rhaglen frechu fwyaf a welsom erioed. Ar draws ein Bwrdd Iechyd ers cychwyn y rhaglen ar 8 Rhagfyr 2020, rydym bellach wedi brechu cyfanswm o 946,222 o bobl rhag Covid-19.

Yn ystod y 4 wythnos gyntaf o'r rhaglen i gyflwyno'r Brechiad Atgyfnerthu COVID-19, mae 57,331 o bobl wedi cael y brechiad atgyfnerthu hwnnw.

Mae preswylwyr o 72 o gartrefi gofal ar gyfer oedolion hŷn o fewn ardal y Bwrdd Iechyd wedi cael cynnig y brechiad atgyfnerthu. Rydym wedi brechu 15,081 o bobl 80 oed a hŷn, a dros 22,360 o staff y rheng flaen a staff gofal cymdeithasol.

Paratoi am eich apwyntiad:

Os byddwch yn derbyn apwyntiad, gwnewch bopeth o fewn eich gallu i fynychu'r apwyntiad cyntaf a gewch gan ein bod yn brechu miloedd o bobl bob wythnos. Bydd hyn yn helpu'r Rhaglen Brechu Torfol i gyflwyno'r rhaglen atgyfnerthu i unigolion cymwys cyn gynted â phosibl.



Clinigau allgymorth Pop-yp

Mae gweithio mewn partneriaeth gyda Wallich wedi galluogi'r rhaglen brechu torfol i ddarparu clinigau po-yp ar gyfer dosiau cyntaf ac ail mewn cymunedau ledled Gwent. Bu i'r bws ymweld ag Abersychan, Blaenafon, Bargoed a Rhymni a defnyddiwyd lleoliadau cymunedol yn Y Pîl, Ringland, Y Fenni ac Abertyleri. Mae dros 1,100 o unigolion wedi cael eu brechu drwy'r clinigau allgymorth hyn.

Cofiwn am bawb

Os ydych yn 16 oed neu'n hŷn, a heb gael eich dos cyntaf o'r brechlyn, gallwch gael y brechlyn serch hynny. Ymunwch â'r miloedd o bobl sydd wedi cael eu brechu, cysylltwch â'r tîm archebu ar 0300 303 1373 i wneud apwyntiad ar gyfer eich dos cyntaf.





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Thank you for your continued support.
Together we will help keep Gwent safe.

YR WYTHNOS I DDOD 18 HYDREF - 24 HYDREF 2021

Pwy ydym ni'n eu brechu'r wythnos hon?

Yr wythnos hon, rydym yn parhau i frechu trigolion preswylwyr cartrefi gofal i oedolion hŷn a'u gofalwyr gyda'n Rhaglen Atgyfnerthu, staff iechyd a gofal cymdeithasol y rheng flaen. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu 3ydd brechiad sylfaenol i'r trigolion hynny sydd wedi eu hadnabod fel rhai imiwnoataliedig. Mae'r rhaglen person ifanc yn parhau i frechu pobl ifanc sydd â chyflyrau iechyd isorweddol ynghyd â phlant 12-15 oed.

Sut fyddaf yn cael fy ngwahodd i fy apwyntiad am frechiad atgyfnerthu COVID-19?

Gwahoddir unigolion i fynychu apwyntiad brechiad atgyfnerthu Covid-19 drwy lythyr, yn yr un modd ag y cawsant eu hail ddos. Hoffem annog pawb i fynychu'r apwyntiad cyntaf sy'n cael ei gynnig iddynt. Os nad yw hyn yn bosibl, mae opsiwn i adael eich enw, dyddiad geni a rhif ffôn i'w ffonio'n ôl ar ein llinell archebu. Diolch am eich dealltwriaeth ac amynedd yn ystod y cyfnod hwn.

Galw ar fenywod beichiog:

Gweler y cyngor diweddaraf ar feichiogrwydd a'r Brechiad Covid-9 drwy'r dolenni canlynol:

<https://phw.nhs.wales/news/coronavirus-vaccine-benefits-far-outweigh-risks/>

- <https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/patient-information/covid-19-vaccination-and-pregnancy/>

Nid yw'r rhan fwyaf o fenywod beichiog sy'n cael eu heintio â COVID-19 yn ddifrifol wael. Fodd bynnag, mae risg isel o salwch difrifol i'r fam a'r baban, megis angen eu derbyn i uned gofal dwys a genedigaeth gynamserol. Mae'r risgiau hyn yn uwch yn ddiweddarach mewn beichiogrwydd ac ymhlith menywod sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol.

Ffoniwch 0300 3031373 i drefnu eich apwyntiad am frechlyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.rcog.org.uk/covid-vaccine

Imiwnoataliedig

Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn cynnig trydydd dos sylfaenol o'r brechiad COVID-19 i unigolion 12 oed a hŷn sydd ag imiwnoataliaeth difrifol, oherwydd cyflyrau iechyd sylfaenol neu driniaeth feddygol. Yn ôl cyngor y JCVI, dylai'r grŵp hwn o gleifion fod yn flaenoriaeth o ran cael trydydd dos, gan ei bod hi'n bosibl nad yw eu brechiadau sylfaenol wedi datblygu ymateb imiwnedd digonol hyd yn hyn.

Os ydych chi'n teimlo eich bod yn rhan o'r grŵp hwn, cysylltwch â'n tîm brechu ar 0300 303 1373 cyn gynted â phosibl. Bydd ein tîm yn cymryd manylion perthnasol ac yna'n cysylltu â'ch clinigwr i gadarnhau eich safle. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/third-primary-covid-19-vaccine-dose-for-people-who-are-immunosuppressed-jcvi-advice/joint-committee-on-vaccination-and-immunisation-jcvi-advice-on-third-primary-dose-vaccination

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <https://gov.wales/get-your-nhs-covid-pass#section-70608>
Neu drwy ffonio **0300 303 5667**

Am ragor o wybodaeth ynghylch y Brechiad Covid-19, ewch i: <https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/>

Gwybodaeth ynghylch y Brechiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:
<https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/>